# IS-BWYLLGOR DEDDFAU TRWYDDEDU A GAMBLO

**(Drwy Microsoft Teams)**

**Yn bresennol:** **6 Rhagfyr 2021**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Y Cynghorydd S.Paddison** |
| **Y Cynghorwyr:** | R.Mizen ac M.Protheroe |
| **Swyddogion yn bresennol:** | N.Chapple, G.White a J.Woodman-Ralph |

---

1. **Croeso a galw'r rhestr**

Croesawodd y Cyng. Paddison bawb i'r cyfarfod a galwyd yr enwau.

2. **Datganiadau o fuddiannau**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. **Cais i amrywio Trwydded Mangre - Afan Ales and Fine Wines**

Ystyriodd yr Aelodau gais i amrywio trwydded mangre o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 gan Mr. Davies, mewn perthynas ag Afan Ales and Fine Wines.

| | |
|---|---|
| Enw'r fangre | Afan Ales and Fine Wines |
| Cyfeiriad y fangre | 24 Heol yr Orsaf, Port Talbot SA13 1JB |
| Enw'r ymgeisydd | David George Davies |
| Cyfeiriad yr ymgeisydd | 92, Pen Y Dre, Castell-nedd SA11 3HG |
| Enw'r Goruchwyliwr Mangre Dynodedig | David George Davies |

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cais Mr. David George Davies i amrywio'r drwydded mangre yn Afan Ales and Fine Wines, 24 Heol yr

Orsaf, Port Talbot SA13 1JB, o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 yn amodol ar yr amodau canlynol:

- Caiff alcohol ei gyflenwi yn y fangre i berson sy'n eistedd wrth fwrdd yn y fangre yn unig.

- Penderfynir ar yr angen i ddefnyddio llestri yfed gwydr gwydn neu blastig yn yr ardaloedd awyr agored yn dilyn asesiad risg gan y Goruchwyliwr Safle Dynodedig (GSD), gan roi sylw dyladwy i ffactorau lliniaru perthnasol digwyddiad o’r fath.

- Bydd gwerthu alcohol ar y safle, adloniant reoledig a lluniaeth gyda'r hwyr yn dod i ben am 23:00, a gweithgareddau gwerthu oddi ar y safle yn unig bydd yn parhau ar ôl yr amser hwn.

4. **Eitemau brys**

Ni dderbyniwyd unrhyw Eitemau Brys